OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2993 (Cy.262)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Tachwedd 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Rhagfyr 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**).

Yn unol ag adran 105(6) o'r Ddeddf honno, cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chawsant eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 2 Rhagfyr 2009.

### Diwygio

**2.** Diwygier Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007(**3**) fel a ganlyn.

**3.** Yn Rhan CH o Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i fwrdd awdurdod), hepgorer paragraff 18.

**4.** Yn Atodlen 2 (swyddogaethau y caniateir iddynt fod, ond nad oes angen iddynt fod, yn gyfrifoldeb bwrdd awdurdod)—

(a) yn lle paragraff 18 rhodder—

"**18.** Unrhyw un neu unrhyw rai o'r swyddogaethau canlynol o ran priffyrdd—

(a) gwneud cytundebau ar gyfer gwneud gwaith priffyrdd(**4**);

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2007/397 (Cy. 43).
(**4**) Amnewidiwyd adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (p.66) gan adran 23 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).

(b) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan III o Ddeddf Priffyrdd 1980(**5**) (creu priffyrdd)—

(i) adran 25 — creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig drwy gytundeb;

(ii) adran 26 — pwerau gorfodol ar gyfer creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig;

(c) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan VIII o Ddeddf Priffyrdd 1980 (cau priffyrdd a gwyro priffyrdd etc)(**6**)—

(i) adran 116 — pŵer llysoedd ynadon i awdurdodi cau priffordd neu wyro priffordd;

(ii) adran 117 — cais am orchymyn o dan adran 116 ar ran person arall;

(iii) adran 118 — cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig;

(iv) adran 118ZA — cais am orchymyn diddymu llwybr cyhoeddus;

(v) adran 118A — cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;

(vi) adran 118B — cau priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau etc;

(vii) adran 118C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn diddymu arbennig;

(viii) adran 119 — gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig;

(ix) adran 119ZA — cais am orchymyn gwyro llwybr cyhoeddus;

(x) adran 119A — gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;

(xi) adran 119B — gwyro priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau etc;

(xii) adran 119C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn gwyro arbennig;

(xiii) adran 119D — gwyro priffyrdd penodol ar gyfer gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig;

(xiv) adran 120 — arfer pwerau i wneud gorchmynion diddymu a gwyro llwybrau cyhoeddus;

(xv) adran 121B — cofrestr ceisiadau;

(ch) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980 (ymyrraeth gyfreithlon ac anghyfreithlon â phriffyrdd a strydoedd)—

(i) adran 130 — amddiffyn hawliau cyhoeddus;

(ii) adran 139 — rheoli sgipiau adeiladwyr;

(iii) adran 140 — symud sgipiau adeiladwyr i ffwrdd;

(iv) adran 140A(**7**) — sgipiau adeiladwyr: ffioedd am feddiannu'r brifforddd;

(v) adran 142 — trwydded i blannu coed, llwyni etc mewn priffordd;

(**5**) 1980 p.66.

(**6**) Mewnosodwyd adrannau 118ZA, 118B, 118C, 119ZA, 119B, 119C, 119D a 121B gan adran 57 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a Rhan 1 o Atodlen 6 iddi. Mewnosodwyd adrannau 118A a 119A gan adran 47 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 (p.42), ac Atodlen 2 iddi.

(**7**) Mewnosodwyd adran 140A gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) (adran 168 a Rhan 1 o Atodlen 8).

(vi) adran 147 — pŵer i awdurdodi codi camfeydd etc ar lwybrau troed neu lwybrau ceffylau;

(vii) adran 147ZA(**8**) — cytundebau ynghylch gwelliannau er lles personau sydd â phroblemau symudedd;

(viii) adran 149 — symud pethau a adawyd ar briffyrdd sy'n peri niwsans etc;

(ix) adran 169 — rheoli sgaffaldiau ar briffyrdd;

(x) adran 171 — rheoli gosod deunyddiau adeiladu ar strydoedd a gwneud gwaith cloddio mewn strydoedd;

(xi) adran 171A(**9**) a rheoliadau a wneir o dan yr adran honno — gwaith o dan adran 169 neu adran 171: tâl am feddiannu'r briffordd;

(xii) adran 172 — palisau sydd i'w codi yn ystod adeiladu etc;

(xiii) adran 173 — palisau i'w codi'n ddiogel;

(xiv) adran 178 — cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau etc dros briffyrdd;

(xv) adran 179 — rheoli adeiladu selerydd etc o dan strydoedd;

(xvi) adran 180 — rheoli mynedfeydd i selerydd etc o dan strydoedd, a goleuadau palmentydd ac awyryddion;

(d) arfer swyddogaethau o dan adran 34 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**10**) (gorchmynion calchbalmentydd); ac

(dd) arfer swyddogaethau o dan adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**11**) (dyletswydd i adolygu mapiau a datganiadau diffiniol yn barhaus).";

(b) yn lle paragraff 24 rhodder—

"**24.** Swyddogaethau o ran gamblo o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Gamblo 2005(**12**)—

(a) adran 29 — gwybodaeth gan awdurdod trwyddedu;

(b) adran 30 — cyfnewid arall o wybodaeth;

(c) adran 212 a rheoliadau a wneir o dan yr adran honno — ffioedd;

(ch) adran 284 — tynnu ymaith esemptiad;

(d) adran 304 — personau awdurdodedig;

(dd) adran 346 — erlyniadau gan awdurdod trwyddedu;

(e) adran 350 — cyfnewid gwybodaeth;

(f) Rhan 5 o Atodlen 11— cofrestru gydag awdurdod lleol.".

**5.** Yn Atodlen 3 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i fwrdd awdurdod yn unig)—

(a) yng ngholofn (1) yn lle "Y Cynllun Addysg Sengl" rhodder "Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc";

(b) yng ngholofn (2) yn lle "Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006 O.S. 2006/877 (Cy.82))" rhodder "Rheoliadau a wnaed o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004(**13**)";

(**8**) Mewnosodwyd adran 147ZA gan adran 69(3) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37).
(**9**) Mewnosodwyd adran 171A gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) (adran 168 a Rhan 1 o Atodlen 8).
(**10**) 1981 p.69. Diwygiwyd adran 34 gan baragraff 83 o Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16). Drwy adran 27AA o Ddeddf 1981 mae adran 34 yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau at Natural England yn gyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
(**11**) Diwygiwyd adran 53 gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) (adran 51 a Rhan 1 o Atodlen 5) a Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p.16) (adran 70).
(**12**) 2005 p.19.
(**13**) 2004 p.31.

(c) ar y diwedd—

(i) yng ngholofn (1), mewnosoder "Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy";

(ii) yng ngholofn (2) mewn perthynas â'r cofnod hwnnw yng ngholofn (1), mewnosoder "Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**14**).".

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

10 Tachwedd 2009

(**14**) 2000 p. 37.

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn pennu pa awdurdodau lleol a gaiff weithredu "trefniadau amgen" (h.y. trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod nad ydynt yn golygu creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod) (adran 31(1)(b)) ac yn pennu ffurf y trefniadau hynny (adran 32).

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/397 (Cy.43)) ("y Prif Reoliadau") yn caniatáu i bob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru weithredu trefniadau amgen, ar yr amod bod y trefniadau hynny ar y ffurf sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hynny.

Mae'r Prif Reoliadau'n pennu'r swyddogaethau hynny nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i fwrdd awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i fwrdd o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau.

Mae Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau'n rhestru'r swyddogaethau hynny y caniateir iddynt fod, (ond nad oes angen iddynt fod) yn gyfrifoldeb bwrdd awdurdod. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr hon drwy fewnosod swyddogaethau penodedig o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Gamblo 2005. Effaith y diwygiadau hyn yw bod gan awdurdod lleol ddisgresiwn o ran a ydyw'r swyddogaethau o dan sylw i'w cael eu harfer gan y bwrdd.

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r Prif Reoliadau drwy ddefnyddio geiriau generig i gyfeirio at gynlluniau plant a phobl ifanc sydd i'w paratoi a'u cyhoeddi gan awdurdodau lleol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 26 o Ddeddf Plant 2004. Mae hefyd yn darparu bod yn rhaid i gynlluniau gwella hawliau tramwy beidio â bod yn gyfrifoldeb y bwrdd yn unig.